

Lefelau campylobacter yn parhau i fod yn gyson

Mae'r naw prif fanwerthwr ar draws y DU bellach wedi cyhoeddi eu canlyniadau diweddaraf ar halogiad campylobacter ar gywion ieir cyfan ffres a gynhyrchir yn y DU (gan gynnwys samplau a brofwyd o fis Ionawr i fis Mawrth 2018).

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos, ar gyfartaledd, ar draws y prif fanwerthwyr, bod 3.8% o'r cywion ieir wedi profi'n bositif am y lefel halogiad uchaf.

Dyma'r ieir sy'n cario mwy na 1,000 o unedau ffurfio cytref fesul gram fesul gram (cfu/g) o campylobacter. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer y set flaenorol o ganlyniadau (Hydref-Rhagfyr 2017) oedd 3.6%, a 4.6% oedd y ffigwr pan gyhoeddwyd y lefelau gyntaf (Gorffennaf-Medi 2017).

Meddai Michael Wight, Cyfarwyddwr Polisi a Gwyddoniaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd:

'Mae'r ffigurau diweddaraf yn gyson â chanlyniadau blaenorol ac yn dangos ein bod yn atgyfnerthu ar y cynnydd sylweddol a wnaed hyd yn hyn.

'Byddwn yn parhau i weithio gyda manwerthwyr a busnesau dofednod llai i leihau lefelau campylobacter ymhellach.

'Hoffem ddiolch i'r prif fanwerthwyr a chynhyrchwyr dofednod am eu hymdrechion wrth fynd i'r afael â campylobacter ac am weithio ochr yn ochr â'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i gydlynu'r broses o gyhoeddi'r canlyniadau.'

Canlyniadau

Mae'r dull o ddadansoddi canlyniadau wedi ei addasu er mwyn sicrhau nad yw'n cael ei gamliwio gan amrywiadau mewn niferoedd sampl a gyflwynir gan fanwerthwyr. Mae'r canlyniadau yn dal i ddangos cyfran isel a sefydlog o gywion ieir sydd wedi'u halogi i'r lefel uchaf, sy'n gyson â chanlyniadau blaenorol (rhagor o fanylion isod).

Mae'r canrannau campylobacter cyfartalog yn y data a ddarparwyd gan fanwerthwyr i'w gweld yn y tabl isod.

| Lefelau halogi | Gorffennaf-Medi 2017 | Hydref-Rhagfyr 2017 | Ionawr-Mawrth 2018 |
|-------------------------|----------------------|---------------------|--------------------|
| cfu/g llai na 10 | 48.7% | 57.7% | 59.1% |
| cfu/g 10-99 | 28.3% | 22.0% | 23.9% |
| cfu/g 100-1000 | 18.4% | 16.7% | 13.2% |
| cfu/g dros 1000 | 4.6% | 3.6% | 3.8% |

Mae'r dull o ddadansoddi canlyniadau wedi ei addasu o gyhoeddiadau blaenorol fel ei fod yn adlewyrchu'n gywirach yr amrywiadau rhwng y niferoedd sampl a gyflwynir gan fanwerthwyr. Mae'r ffigurau o fis Gorffennaf-Rhagfyr 2017 wedi'u diwygio er mwyn gallu cymharu'n ystyrlon ar draws y cyfnod samplu cyfan.

Canlyniadau diweddaraf campylobacter ar ieir a samplwyd, yn ôl manwerthwr ar gyfer Ionawr-Mawrth 2018:

- [Canlyniadau Aldi](#)
- [Canlyniadau Asda](#)
- [Canlyniadau Co-op](#)
- [Canlyniadau Lidl](#)
- [Canlyniadau Marks & Spencer](#)
- [Canlyniadau Morrisons](#)
- [Canlyniadau Sainsbury's](#)
- [Canlyniadau Tesco](#)
- [Canlyniadau Waitrose](#)

Cynhelir y gwaith samplu a dadansoddi yn unol â phrotocolau cadarn a osodir gan yr ASB.

Gwybodaeth gefndirol

Rydym ni wedi bod yn profi cyw iâr am campylobacter ers mis Chwefror 2014, ac wedi cyhoeddi'r canlyniadau fel rhan o ymgyrch i ddod â'r gadwyn fwyd gyfan ynghyd er mwyn mynd i'r afael â'r broblem. Campylobacter yw'r achos gwenwyn bwyd mwyaf cyffredin yn y DU.

Ar 21 Medi 2017 fe wnaethom ni gyhoeddi newidiadau i'r arolwg, gyda'r prif fanwerthwyr yn cynnal eu gwaith samplu eu hunain a chyhoeddi'r canlyniadau dan brotocolau cadarn a osodwyd gan yr ASB. Rydym yn parhau i samplu cywion ieir cyfan ffres a werthir ar y pwynt manwerthu, fodd bynnag, mae'r ffocws bellach ar y manwerthwyr llai a'r farchnad annibynnol.

Cyngor i ddefnyddwyr

Mae cyw iâr yn ddiogel os ydych chi'n dilyn arferion da yn y gegin:

- gorchuddio ac oeri cyw iâr amrwd – gorchuddio cyw iâr amrwd a'i storio ar waelod yr oergell, felly na all suddion ddiferu ar fwydydd eraill a'u halogi â bacteria gwenwyn bwyd fel campylobacter
- peidiwch â golchi cyw iâr amrwd – bydd coginio trylwyr yn lladd unrhyw facteria sy'n bresennol, gan gynnwys campylobacter. Mae golchi cyw iâr yn gallu lledaenu germau drwy dasgu
- golchi offer cegin – golchwch bob darn o offer, byrddau torri ac arwynebau yn drylwyr ar ôl eu defnyddio i baratoi cyw iâr amrwd
- golchi dwylo'n drylwyr gyda sebon a d'r cynnes, ar ôl trin cyw iâr amrwd - mae hyn yn helpu i atal campylobacter rhag lledaenu trwy osgoi croeshalgi
- coginio cyw iâr yn drylwyr – gwnewch yn si?r bod cyw iâr yn stemio'n boeth drwyddo cyn ei weini. Torrwch i ran fwyaf trwchus y cig a sicrhau ei fod yn stemio'n boeth, nad oes unrhyw gig pinc a bod y suddion yn rhedeg yn glir

Methodoleg

Mewn canlyniadau blaenorol, aethom ati i bwysoli (weight) y ffigurau cyfartalog cyffredinol yn seiliedig ar nifer y samplau. Er bod pob manwerthwr wedi cytuno i ddilyn protocol samplu'r ASB o ran isafswm y samplau a gymerwyd, heb nodi unrhyw rif sampl uchaf, mae amrywiadau parhaus yn nifer y samplau a gymerir gan fanwerthwyr unigol. Felly, rydym ni'n ei ystyried i fod yn gywirach i gyflwyno'r sefyllfa gyffredinol fel cyfartaledd heb ei bwysoli o'r naw prif fanwerthwyr.

Mae'r canlyniadau gan ddefnyddio'r dull blaenorol, a gyhoeddwyd gennym ni'n flaenorol, wedi'u dangos isod.

Lefelau halogi Gorffennaf-Medi 2017 Hydref-Rhagfyr 2017

cfu/g llai na 10 44.7%

52.7%

Lefelau halogi Gorffennaf-Medi 2017 Hydref-Rhagfyr 2017

| | | |
|------------------------|-------|-------|
| cfu/g 10-99 | 30.5% | 24.3% |
| cfu/g 100-1000 | 20.3% | 18.5% |
| cfu/g dros 1000 | 5.1% | 4.5% |